

Y GYFRAITH ARFAU TANIO - DIWYGIADAU I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU BRYS

CRYNODEB

Mae'r prosiect arfau tanio yn rhan o'n Deuddegfed Rhaglen i Ddiwygio'r Gyfraith lle mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith sy'n berthnasol i arfau tanio. Rhoddwyd y prosiect ar waith oherwydd bod sefydliadau gorfodi'r gyfraith a grwpiau yn cynrychioli'r gymuned arfau tanio trwyddedig fel ei gilydd yn dweud bod diffygion difrifol yn y gyfraith yn y cyswllt hwn.

Ym mis Gorffennaf 2015 gwnaethom gyhoeddi papur cwmpasu ymgynghorol oedd yn archwilio'r problemau mwyaf brys o safbwynt y gyfraith ynghyd â rhai cynigion dros dro i'w datrys. Roeddem wedi gofyn i randdeiliaid am eu sylwadau ar ein cynigion ac yn ystod ein cyfnod ymgynghori o ddau fis cawsom dros 200 o ymatebion. Yn ein hadroddiad rydym wedi nodi rhai o'r ymatebion a gawsom ynghyd â nifer o argymhellion.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn 9 pennod.

- Ym Mhennod 1 rydym yn cyflwyno'r prosiect ac yn trafod y cefndir iddo.
- Mae Pennod 2 yn delio â phroblemau sy'n ymwneud â'r diffiniad o "arfau marwol". Mae'n trin a thrafod rhai o'r ymatebion a gawsom i'n cynnig y dylid ystyried diffinio'r term "marwol" yn adran 57(1) Deddf Arfau Tanio 1968 gan gyfeirio at egni cinetig y safn sefydlog. Ar sail yr ymatebion a gawsom gan ymgynghoreion, rydym yn argymhell y dylid diffinio "marwol" gan gyfeirio at egni cinetig y safn sefydlog ac y dylid pennu trothwy o 1 joule ar gyfer ynni cinetig. Rydym yn sylweddoli y gall hyn effeithio ar y rheini sy'n gwerthu arfau tanio aer ffug (*airsoft*) ac rydym yn argymhell y dylid pennu trothwy uwch ar gyfer arfau o'r fath.
- Mae Pennod 3 yn ymdrin ag anawsterau sy'n codi yn niffyg diffiniad digonol o "ddarnau cydrannol" arfau tanio. Mae'n trin a thrafod rhai o'r ymatebion a gawsom i'n cynnig y dylai rhestr o ddarnau cydrannol gael ei chorffori mewn cyfraith. Roedd yr ymgynghoreion yn cytuno â hyn ac felly rydym yn argymhell diffinio'r "darnau cydrannol" fel y baril, y siambr, y drwm, y ffrâm, y corff, yr amgaeadau, y bloc bôn, y bollt neu fecanwaith arall ar gyfer dal y getrisen yng nghefn y siambr. Er mwyn gwneud yn siŵr bod y rhestr yn ymateb i ddatblygiadau, rydym yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael y pŵer i'w newid drwy offeryn statudol. I leddfu'r pryderon a fynegwyd gan rai ymgynghoreion ynghylch hyd a lled y pŵer hwn, rydym yn argymhell gwneud y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn berthnasol iddo. Gan nad ydym yn gallu asesu effaith gwneud hyn, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhelliad ynghylch a ddylai darnau cydrannol drylliau gael eu rheoli.

- Mae Pennod 4 yn delio â'r broblem o ddiffyg diffiniad yng nghyswllt "arfau tanio hynafol" ar gyfer yr amddiffyniad yn Neddf 1968. Mae'n trin a thrafod rhai o'r ymatebion a gawsom i'n hawgrymiadau ynghylch sut gellid diffinio "arf tanio hynafol". Roedd gwahaniaeth barn ymysg yr ymgynghoreion ynghylch corffori'r rhestr o getris sydd wedi cael eu disodli mewn cyfraith a chael rhestr o systemau tanio sydd wedi cael eu disodli. Felly, rydym yn argymhell cyfuno'r ddau ddull. Byddai arf tanio hynafol yn arf sydd naill ai â siambr ar gyfer math o getrisen sydd wedi'i chynnwys mewn rhestr statudol y gellir ei diwygio o getris nad ydynt bellach yn hawdd eu cael. Neu byddai'n arf tanio sy'n defnyddio math o system danio sydd wedi'i chynnwys mewn rhestr y gellir ei diwygio o systemau tanio sydd wedi cael eu disodli. Ymateb negyddol gan mwyaf a gawsom gan ymgynghoreion i'n cynnig bod cofnod yn cael ei wneud o unrhyw arfau tanio hynafol sy'n cael eu gwerthu ac nad ydynt ond yn cael eu gwerthu drwy ddull y gellir ei olrhain. Roedd ymgynghoreion yn cwestiynu pa mor ddefnyddiol fyddai'r cynigon hyn ac felly nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y materion hyn. Yn olaf, rydym yn argymhell bod y troseddau yn adrannau 19 a 20 Deddf Arfau Tanio 1968 yn cael eu hymestyn i fod yn berthnasol i'r rheini sydd ag arfau tanio hynafol yn eu meddiant. Bydd hyn yn gwneud unigolion sy'n cario arf tanio hynafol mewn man cyhoeddus heb esgus rhesymol yn droseddwyr a'r rheini sy'n tresmasu gydag arf tanio hynafol heb esgus rhesymol.
- Mae Pennod 5 yn ymdrin ag arfau tanio sydd wedi cael eu dadactifeiddio. Mae'n archwilio rhai o'r ymatebion a gawsom i'n cynnig y dylai safonau dadactifeiddio cymeradwy'r Swyddfa Gartref fod yn orfodol. At ei gilydd, roedd yr ymgynghoreion o blaid hyn felly rydym yn argymhell mai dim ond arf tanio sydd wedi cael ei ddadactifeiddio i safon gymeradwy'r Swyddfa Gartref y gellir ei alw yn arf tanio wedi'i ddadactifeiddio. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â Rheoliad diweddar gan yr Undeb Ewropeaidd, rydym hefyd yn argymhell y gellir ystyried bod arf tanio wedi cael ei ddadactifeiddio os yw wedi cael ei ddadactifeiddio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r safonau sydd wedi'u hatodi i'r Rheoliad. Mae'r Rheoliad yn datgan ei fod yn berthnasol i unrhyw arf tanio sydd wedi cael ei ddadactifeiddio a fydd yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo mewn rhyw ffordd arall. Rydym yn argymhell yr un peth. Yn ein papur cwrmpasu ymgynghorol rydym wedi argymhell diwygio adran 4(3) Deddf Arfau Tanio 1968 er mwyn egluro ei fod yn berthnasol i arfau tanio sydd wedi cael eu dadactifeiddio. At ei gilydd roedd yr ymgynghoreion yn cytuno â hyn ac felly rydym yn gwneud yr argymhelliad hwn.
- Mae Pennod 6 yn delio â'r broblem o arfau tanio ffug y gellir eu haddasu'n rhwydd. Mae'n trin a thrafod rhai o'r ymatebion a gawsom i'n cynnig bod y prawf ar gyfer "addasu'n rhwydd" yn Neddf Arfau Tanio 1982 yn cael ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gallu sydd gan ein cymdeithas gyfoes i addasu arfau

tanio ffug yn arfau tanio go iawn. Er mwyn sicrhau hyn, gwnaethom gynnig y dylid canolbwyntio ar “argaeledd rhwydd” yr arfau dan sylw. Mynegodd yr ymgynghoreion anniddigrwydd ynghylch a fyddai hyn yn gwneud y prawf yn rhy eang. Fodd bynnag rydym yn esbonio yn yr adroddiad pam nad felly y byddai yn ein barn ni. Rydym hefyd yn trin a thrafod ymateb yr ymgynghoreion i’n cynnig ynghylch trosedd o fod ag unrhyw eitem yn eich meddiant gyda’r bwriad o’i defnyddio yn anghyfreithlon i droi arf tanio ffug yn arf tanio go iawn. Mynegodd ymgynghoreion eu hanniddigrwydd ynghylch hyd a lled y trosedd hwn. Ond, fel rydym yn esbonio, ni fyddai’r trosedd ond yn cael ei gyflawni os oedd bwriad amlwg i ddefnyddio’r eitem yn anghyfreithlon i addasu arfau tanio. Credwn y bydd yr esboniad hwn yn lleddfu pryderon ymgynghoreion. Felly rydym yn argymhell creu trosedd tebyg i’r un rydym ni wedi’i gynnig.

- Mae Pennod 7 yn trin a thrafod rhai o’r ymatebion a gawsom i’n cynnig bod y gyfraith sy’n berthnasol i gael a meddu ar arfau tanio yn cael ei chodeiddio. Roedd y mwyafrif llethol o’r ymgynghoreion o blaid cynnal ymarfer o’r fath. Felly rydym yn argymhell cynnal ymarfer codeiddio ar y cyfle cyntaf posib. Mynegodd nifer fawr o ymgynghoreion eu cefnogaeth i greu corff cynghori i roi cyngor i’r Swyddfa Gartref ar y gyfraith arfau tanio. Ar sail y gefnogaeth i’r awgrym hwn, rydym yn argymhell creu corff cynghori o’r fath.
- Mae Pennod 8 yn cynnwys rhestr o’n hargymhellion.
- Mae Pennod 9 yn cynnwys geirfa.